

Papur y Plwyf

Papur lleol electronig plwyf

Llangynnwr – Llangynnwr's local electronic paper

Rhif 13 Mawrth 2012 March No. 13

Bydd Papur Y Plwyf yn son am ddigwyddiadau a phersonoliaethau yn ein cymuned. Os ydych am dderbyn copi, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at papuryplwyf@hotmail.co.uk



Oedi mewn Gwaith Adeiladu

Bu oedi yn yr adeiladu ar safle'r hen efail yn Login. Ataliwyd trawsnewid yr adeilad i mewn i gartref gan adran gynllunio'r sir. Rhoddwyd caniatad cynllunio i newid defnydd tir i ddefnydd preswyl ond pan ddechreuodd y gwaith adeiladu, daeth yn amlwg nad oedd rhai o'r waliau'n ddiogel ac roedd rhaid dymchwel dau ohonynt. Y pryd hynny, penderfynodd yr adran gynllunio bod angen gwneud cais cynllunio newydd gan adael un wal a phentwr enfawr o bridd a rwbel adeiladu. Mynegodd cynghorwyr lleol, o dan arweiniad y Cynghorydd Sir Merlin Jones, eu pryder, yn enwedig am fod y cynlluniau'n cynnwys elfennau o'r hen efail ac mae'r annibendod presennol yn creu argraff wael o Llangynnwr wrth i bobl

gyrraedd y pentref.

Galw am arwyddion gwell

Yn dilyn cau nifer o fusnesau ym Mhensarn, gofynnodd cynghorwyr lleol am wella arwyddion ar gylchfan Pensarn er mwyn denu traffig sy'n mynd heibio i'r ystad fasnach.



Gwasanaeth Gwaed Cymru

Os yw rhoi yn eich gwaed, helpwch ni

Dyddiad: 12,13, 17 & 18 Ebrill, 2012


Amser: 11 yb – 7.00 yp

Cyfeiriad:

Neuadd Y Llyfrgell,
Ty Ffwrnais,
Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin,
SA31 1PG

Llwybr Arfordir Cymru i redeg drwy'r plwyf.

Bydd Llwybr yr Arfordir, a fydd yn cael ei agor ym mis Mai, 2012 yn rhedeg drwy Llangynnwr. Bydd yr 870 milltir yn dechrau y tu allan i Gaer yn y gogledd, yn rhedeg ar hyd arfordir Cymru i gyd ac yn gorffen yng Nghas-Gwent yn y de. Ariannwyd y llwybr yn rhannol gan grant £3.9m oddi wrth yr UE, a bydd yn croesi i Llangynnwr wrth Bont King Morgan, yn dilyn y llwybr seiclo/ llwybr troed o amgylch yr orsaf drenau ac i lawr drwy Bensarn, o dan y ffordd osgoi ac allan heibio i Morrison's. Bydd yn mynd ymlaen o amgylch cylchfan Pibwrlwyd, yn torri i lawr at yr afon ac yn gadael y plwyf ger Ysgol Bro Myrddin.



H.I. EVANS & FEIBION

Llaethdy Penymorfa
Llaeth Ffres Pasteuredig o'r Fferm

Papur Newydd
Hufen ac wyau ffres cludiant dyddiol



MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Cylch Meithrin Llangynnwr

Dydd Llun, Mawrth, Iau a Dydd Gwener (Mon, Tues, Thurs & Fri)

9.00 – 11.30 £2.50 sesiwn

Ysgol Llangynnwr



Tudalen Facebook Llangynnwr newydd

Lawnsiwyd tudalen Facebook newydd yn edrych ar Llangynnwr. Mae copiau o gyfrifiad 1891 a 1911 arno ac oriel luniau o ffotograffau cyfoes o gwmpas y plwyf a rhestr o lefydd da i fynd am dro ar y llwybrau cyhoeddus. Gwelir y safle ar <http://www.facebook.com/pages/Llangunnor-Network/164196883598548>

Gofid am oleuadau

Mynegwyd pryder gan drigolion Lon Pen-y Morfa am y goleuadau sy'n dod o'r siop newydd, The Range. Holwyd am faint arwydd y siop a golau'n dod o'r siop yn hwyr yn y nos sy'n disgleirio i mewn i gartrefi ar ochr ogleddol lôn Pen-y-Morfa.

Cadarnhaodd y Cyng Bevan a gadeiriodd y pwyllgor cynllunio a dderbyniodd y cais cynllunio, fod yr amodau a awgrymwyd gan y cyngor cymuned yn cynnwys amod na ddylai'r arwydd fod yn fwy nag arwydd PC World drws nesaf a dylai goleuadau fod ymlaen am awr cyn ac ar ôl i'r siop gau.

Apwyntio Plismon Cymuned newydd

Mae Heddlu Dyfed Powys yn y broses o apwyntio plismon cymuned newydd i olynu PC Mike Richardson sydd wedi symud i swydd newydd yn Llangennech.



Mae'r heddwes newydd, PC Rhydian Jones wedi bod gyda'r heddlu ers 21 o flynyddoedd ac ef oedd y plismon lleol ar gyfer Llanbydder, Pencarreg a Llanfihangel-ar-Arth. Mae'n Gymro Cymraeg a bydd yn cael cefnogaeth oddi wrth PCSO newydd, Holly Thomas.

Dim galw heb ganiatad.

Rhoddir arwyddion "Dim galw heb ganiatad" a phecynnau esbonio i drigolion Lôn Pen-y-Morfa y mis hwn ar ôl iddynt bleidleisio dros yr haf i sefydlu Parth Dim galw heb ganiatad yn eu hardal.

Traffig yn gyrru'n rhy gyflym

Yn dilyn gwirio cyflymder ar heolydd Llangynnwr, rhoddwyd saith tocyn goryrru gan yr heddlu. Dewisodd pob un o'r saith dderbyn cwrs £80 ymwybyddiaeth o gyflymder yn hytrach na derbyn pwyntiau ar eu trwydded.

Cymorthfeydd Lleoliad yr Heddlu

Bob dydd Mercher yn archfarchnad Morrisons rhwng 15.00 a 16.00. Yr Aelwyd, Tregynnwr bob dydd Llun rhwng 16.00 a 18.00.



Hogwarts Express - A regular sight in Llangynnwr!

Built in April 1937 the Olton Hall (4-6-0) was based at Carmarthen railway station from 1950. The train was bought up by railway enthusiast in the early 1960s and then more recently featured in the Harry Potter Sagas.

Achub rhag y gweinyddwyr

Ni fydd Cartref Gofal Brynderwen ar Heol Capel Dewi yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr diolch i'r perchennog newydd, Tudur Williams. Bydd y cartref newydd yn cael ei ail-addurno ac mae cynlluniau i gynyddu o 29 ystafell gyda 20 o ystafelloedd newydd dros y blynyddoedd nesaf.

Clerc Parhaol

Mae clerc Cyngor Cymuned Llangynnwr wedi cwblhau chwe

mis o brawf a gwnaed yr apwyntiad yn un parhaol gan y cyngor llawn. Llongyfarchwyd y clerc, Clive Thomas, gan gadeirydd y cyngor, y Cyng Alun West ar ei ddechreuad penigamp a dymunodd y gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

Diolchodd Clive y cynghorwyr am eu cefnogaeth a phwysleisiodd ei ddiolch i Wyn Davies y cyn-glerc am ei gymorth a'i gefnogaeth dros y cyfnod prawf.